Elin Jones AC
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

2 Ebrill 2020

Annwyl Lywydd

Ysgrifennaf atoch ynglŷn â phenderfyniadau diweddar y Pwyllgor Busnes (ar 24 a 27 Mawrth 2020) ynghylch swyddogaethau a chyfarfodydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Er y gall pob un ohonom gytuno bod yn rhaid addasu'r ffordd yr ydym yn gweithio yn y Cynulliad yn yr amgylchiadau anodd hyn, credaf fod achos cryf dros alluogi'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i barhau i gyflawni ei swyddogaeth graffu, yn enwedig gan ei bod yn berthnasol i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth Cymru (ac yn wir is-ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig, gyda chydsyniad Llywodraeth Cymru).

Darparwyd pwerau gweithredol helaeth i Lywodraeth Cymru, na welwyd eu tebyg y tu hwnt i gyfnodau o wrthdaro, i fynd i'r afael â natur ddifrifol pandemig y coronafeirws. Hefyd, ni ddylid anghofio bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrthi'n paratoi Cymru a'r DU i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r dasg hon yn cael ei gweithredu'n bennaf drwy raglen helaeth o is-ddeddfwriaeth. Mae'n bwysig, hyd yn oed yn y cyfnod heriol hwn, fod seneddau'r DU yn darparu'r lefel angenrheidiol o waith craffu a bod gweithredoedd y swyddogion gweithredol yn parhau i fod yn destun system drylwyr a chadarn o wirio ac archwilio – mae hon yn egwyddor gyfansoddiadol hirsefydlog a sylfaenol.

Yn dilyn penderfyniad y Cyfarfod Llawn ar 24 Mawrth 2020 i greu Rheol Sefydlog 34 newydd, a fydd yn caniatáu i gyfarfodydd pwyllgor gael eu cynnal heb eu darlledu (yn dilyn penderfyniad angenrheidiol Comisiwn y Cynulliad), ni welaf unrhyw reswm pam na allai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad barhau i gyfarfod 'yn rhithwir' i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn fy marn i gan ei bod yn ymddangos y bydd y mesurau sy'n mynnu ein bod yn cyfyngu ar ein rhyngweithiadau cymdeithasol ar waith am gyfnod hirach na'r disgwyl.

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn cyflawni gwaith arall sy'n ymwneud â'i swyddogaeth o graffu ar faterion cyfansoddiadol

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDCC@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddLJC@assembly.wales
0300 200 6565

pwysig. Rwy’n ymwybodol, o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, y byddai’n ddoeth i’r Pwyllgor oedi ei waith yn gysylltiedig â’i ymchwiliadau i’r Newid yng Nghyfansoddiad Cymru a Sicrhau bod Cyfiawnder yn Gweithio yng Nghymru, ac i ganolbwyntio ar graffu ar ddeddfwriaeth yn lle hynny. Fodd bynnag, bydd angen adolygu'r galw ar y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i barhau â'r ffrydiau gwaith pwysig hyn wrth i amser fynd yn ei flaen.

Anfonaf gopi o’r llythyr hwn at aelodau’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Cyn gorffen, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno'n dda i chi.

Yn gywir,

Mick Antoniw
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.